CYNGOR CYMUNED DINAS POWYS

# CYFANSODDIAD

## 1. ENW

1.1 Cyfansoddiad Cyngor Cymuned Dinas Powys (y cyfeirir ato wedi hyn fel y Cyngor Cymuned) yw'r Cyfansoddiad a'r Rheolau Sefydlog perthnasol hyn (y cyfeirir atynt wedi hyn fel "Y Cyfansoddiad").

## 2. ARDAL

2.1 Mae'r Gymuned a gynrychiolir gan y Cyngor Cymuned yn cynnwys y Bröydd etholiadol canlynol o fewn Cofrestr gyfredol Etholwyr Llywodraeth Leol Cyngor Bro Morgannwg:

Twyn - OAO, Eastbrook - OBO, Murch – OCO, Cross Common - ODO a Cross Common (B) - OD1

## 3. AMCANION

3.1 Amcanion y Cyngor Cymuned yw canfod, cyd-gysylltu a mynegi i Gyngor Bro Morgannwg ac awdurdodau cyhoeddus eraill, farn y gymuned a gynrychiolir ganddo, a gweithredu'r amcanion hyn er lles y gymuned, yn ôl gofynion a ymddengys yn gyfleus ac ymarferol.

## 4. AELODAETH

4.1 Bydd gan y Cyngor Cymuned fwyafrif o 16 Aelod etholedig neu fel a bennir gan y gyfraith o bryd i'w gilydd.

### CYFETHOL I BWYLLGORAU

4.2 Gall y Cyngor Cymuned gyfethol Aelodau am reswm penodol neu brosiect lle mae angen sgiliau arbennig nad oes ar gael ymhlith aelodaeth etholedig y Cyngor Cymuned.

4.3 Ni all nifer yr Aelodau a gyfetholwyd fod yn fwy nag un traean o Aelodau etholedig y Cyngor Cymuned.

4.4 Dylai Aelodau a gyfetholwyd wasanaethu yn unig ar y Cyngor Cymuned yn ystod cyfnod y prosiect y cawsant eu cyfethol i'w gyflawni.

4.5 Ni ddylai'r cyfnod cyfethol fod yn hwy na'r cyfnod yn arwain i fyny at etholiad llawn nesaf y Cyngor Cymuned.

4.6 Ni fydd gan yr aelodau a gyfetholwyd hawl i bleidleisio.

## 5. PROSES AR GYFER ETHOLIADAU CYNGOR CYMUNED

5.1 Cynhelir a gweinyddir etholiadau Cyngor Cymuned ochr yn ochr â gweithdrefnau penodi Aelod yn deillio o swydd wag achlysurol yn unol â'r gyfraith sy'n berthnasol i'r fath etholiadau a phenodiadau.

## 6. CYNLLUN YR IAITH GYMRAEG

6.1 Mabwysiadodd Cyngor Cymuned Dinas Powys yr egwyddor y byddai wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail cyfartaledd. Mae Cynllun yn ei le sy'n datgan sut y bydd y Cyngor yn gweithredu'r egwyddor hon wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Ninas Powys.

FERSIWN DIWYGIEDIG: MAI 2016